# Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

**CYP(3)-12-08(p.1) 25 Medi 2008**

### Ystyried y Rhaglen Waith: Ystyried Ymchwiliadau ar gyfer y Dyfodol

### Trafodaeth

Paratowyd rhaglen waith ar gyfer Tymor yr Hydref ac mae wedi'i amgáu yn Atodiad 1. Y prif eitemau gwaith ar gyfer y tymor yw ystyried Cyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru, adolygu'r Cynllun Gweithredu Rhianta, ac ystyried Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru.  Fodd bynnag, fe allai'r rhaglen waith newid pe bai angen i'r Pwyllgor ystyried mater brys.

Mae Aelodau'r Pwyllgor wedi nodi nifer o feysydd o ddiddordeb posibl ar gyfer ymchwiliadau'r dyfodol ac maent wedi'u rhestru yn Atodiad 2.  Rhagwelir y bydd ymchwiliad y Pwyllgor i'r Cynllun Gweithredu Rhianta yn parhau hyd at ddechrau Tymor y Gwanwyn.

### Argymhellion

Bod y Pwyllgor yn nodi'r rhaglen waith arfaethedig ar gyfer Tymor yr Hydref ac yn tynnu sylw at unrhyw faterion ychwanegol y mae'n ystyried y dylid eu cynnwys yn y rhaglen.

Bod y Pwyllgor yn nodi unrhyw feysydd y byddai diddordeb arbennig ganddo mewn craffu arnynt yng nghyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Bod y Pwyllgor yn nodi'r meysydd o ddiddordeb y mae wedi eu nodi ar gyfer ymchwiliadau'r dyfodol, ac yn nodi ar drywydd pa ymchwiliad y mae'n dymuno mynd yn dilyn yr ymchwiliad i'r Cynllun Gweithredu Rhianta.

Gwasanaeth y Pwyllgorau
**Medi** 2008